

# ARFER GORAU I GEFNOGI'R RHAGLEN

## IMIWNEIDDIO NYRS YSGOL

Mae imiwneiddio yn achub bywydau. Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn amcangyfrif fod 3 miliwn o fywydau'n cael eu hachub ar draws y byd bob blwyddyn yn sgil imiwneiddio. Mae'n bwysig fod pob babi a phlentyn yn cael eu himiwneiddio'n llawn i'w hamddiffyn rhag afiechydon difrifol posib. Mae afiechydon oedd unwaith yn gyffredin, fel difftheria a thetanws, bellach yn brin yn y DU o ganlyniad i imiwneiddio. Ond tra bod polio wedi ei ddileu yn Ewrop, nid yw bygythiad afiechydon eraill, fel y frech goch a llid yr ymennydd, wedi diflannu yn y DU heddiw.

Ar draws Gogledd Cymru caiff y rhaglen imiwneiddio ei gweithredu o enedigaeth ac mae'n cynnwys sesiynau yn yr ysgol. Mae'r Tîm Nyrsio Ysgolion yn hynod ddiolchgar i ysgolion Sir Ddinbych am eu cefnogaeth wrth gyflawni'r rhaglen. Mae'r daflen ffeithiau hon yn darparu'r arfer gorau er mwyn helpu i sicrhau fod sesiwn imiwneiddio mewn ysgol yn digwydd yn llyfn.

### Pa imiwneiddiadau a roir yn yr ysgol?

- ◆ Derbyn – blwyddyn 6: brechlyn fflw ar ffurf chwistrelliad trwynol.
- ◆ Merched blwyddyn 8/9: HPV, un brechiad ym mlwyddyn 8; un arall ym mlwyddyn 9.
- ◆ Blwyddyn 9: 2 frechiad - brechlyn cyfunol yn erbyn difftheria, tetanws a polio; a Meningitis ACWY.

### Cyswllt ysgol sydd wedi ei enwi/ei henwi i weithio gyda'r Nyrs Ysgol.

- ◆ Mae'n gweithio'n dda pan fo gan Nyrs Ysgol gyswllt ysgol sydd wedi ei enwi/ei henwi i gydgyssylltu ag ef/hi mewn perthynas â chynllunio sesiynau imiwneiddio a chasglu gwaith papur.

### Pa fath o ystafell/adnoddau sydd eu hangen?

- ◆ Bydd angen ystafell a byrddau ar gyfer sesiwn imiwneiddio yn yr ysgol. Bydd math a maint yr ystafell a'r cyfanswm o fyrddau sydd eu hangen yn dibynnu ar faint y garfan o blant fydd yn cael eu brechu. Mae gan nyrsys ysgol "fformiwla" i benderfynu faint o staff sydd eu hangen. Mae angen bwrdd ar bob unigolyn sydd yn brechu.
- ◆ Hefyd mae angen ardal i fonitro plant sy'n teimlo'n sâl neu sy'n nerfus iawn ynglŷn â chael y brechlyn.
- ◆ Mae angen amser ychwanegol bob ochr i'r slot imiwneiddio ar y Tîm Nyrsio Ysgolion i'w galluogi i osod pethau a'u clirio'n ddiogel. Mae angen mynediad at sinc golchi dwylo.

### Pwy fydd yn gweinyddu'r brechlyn?

- ◆ Caiff brechlynnau eu gweinyddu gan y Nyrs Ysgol, y Tîm Imiwneiddio ac weithiau eu cefnogi gan Ymwelwyr Iechyd.

### Sut mae'r sesiwn imiwneiddio yn yr ysgol yn gweithio?

- ◆ Bydd y Nyrs Ysgol, Gweithiwr Cefnogi Gofal Iechyd neu'r Tîm Imiwneiddio yn cysylltu â'r ysgol i drefnu dyddiad ac amser sy'n gyfleus i bawb.
- ◆ Unwaith y cytunir ar ddyddiad ar gyfer y sesiwn imiwneiddio, mae'n anodd iawn iddo gael ei aildrefnu o ganlyniad i gymhlethdodau cynllunio staff.
- ◆ Bydd y cyswllt ysgol sydd wedi'i enwi/henwi wedyn yn gweithio gyda'r nyrs ysgol i ddsbarthu a chasglu gwaith papur.
- ◆ Yn ddelfrydol bydd aelod o staff yr ysgol yn bresennol i helpu i adnabod y disgyblion.

### Pa waith papur sydd angen ei wneud?

- ◆ Bydd y Nyrs Ysgol yn darparu digon o ffurflenni ar gyfer pob plentyn i'r cyswllt ysgol sydd wedi ei enwi/ei henwi.
- ◆ Mae o fudd i'r unigolyn hwn weithio gyda'r Nyrs Ysgol i:
  - Ddsbarthu a chasglu ffurflenni o bob dosbarth.
  - Casglu/mynd ar ôl ffurflenni gan rieni/gofalwyr. Sicrhau fod ffurflenni yn cael eu derbyn yn ôl gan yr athrawon dosbarth a'u rhoi yn ôl i'r Tîm Nyrsio Ysgolion.

- Anfon negeseuon i rieni/gofalwyr, e.e. drwy ddefnyddio system anfon negeseuon testun yr ysgol i atgoffa rhieni/gofalwyr i ddychwelyd ffurflenni neu eu hatgoffa pryd mae'r sesiwn.
- Hysbysu'r Tîm Nyrsio Ysgolion os oes unrhyw blant wedi symud i mewn i'r ysgol neu wedi symud allan o'r ysgol.
- Hysbysu'r Tîm Nyrsio Ysgolion, yn ddelfrydol yr wythnos cynt, yn fras faint o blant i'w ddisgwyl.
- *Bydd Timau Nyrsio Ysgolion bob amser yn caniatáu ar gyfer nifer ychwanegol, ond mae derbyn ffurflenni ar fore'r sesiwn yn arwain at oedi gan fod angen iddynt wedyn gael eu gwirio. Ar achlysuron pan nad oes digon o frechlynnau ar gyfer sesiwn, mae'n bosib y bydd rhaid i staff fynd yn ôl i'w lleoliad gwaith i dderbyn y rhain.*
- ◆ Bydd y tîm imiwneiddio yn ymdrin â gwaith papur y sesiwn imiwneiddio ei hun.
- ◆ Weithiau bydd yr Adran Iechyd Plant yn y Bwrdd Iechyd yn cysylltu â'r ysgol ynglŷn â phlant e.e. i holi a ydynt yn parhau ar y gofrestr ysgol. Mae datganiadau preifatrwydd ysgolion yn caniatáu hyn.

### Sut caiff y brechlynnau eu storio a'u dosbarthu i ysgolion.

- ◆ Bydd y timau Nyrsio Ysgolion yn gwybod faint o frechlynnau sydd eu hangen, a byddant yn casglu o safleoedd storio canolog. Maent yn cael eu cadw ar dymheredd cywir drwy gael eu cludo mewn rhewgelloedd symudol. Mae yna ganllawiau a phrotocolau llym. Caiff y broses o storio brechlynnau ei monitro'n ddyddiol i sicrhau eu bod yn cael eu cadw ar y tymheredd cywir. Os oes unrhyw amheuaeth ynglŷn ag effeithiolrwydd y brechlyn bydd yn cael ei waredu.

### Beth yw'r risgiau os na chaiff plant eu brechu yn yr ysgol?

Os yw rhieni/gofalwyr yn dymuno i'w plant gael eu brechu i'w hamddiffyn rhag afiechydon penodol, mae'n haws iddynt gael hynny wedi'i wneud yn yr ysgol. Bydd plant i gyd yn yr un sefyllfa â'u cyfoedion ac mae'n arbed rhieni rhag gorfod gwneud apwyntiadau mewn meddygfa a chymryd amser o'r gwaith.

### Rhieni/gofalwyr:

- ◆ Nid oes angen i rieni/gofalwyr fod yn bresennol ar gyfer sesiynau imiwneiddio yn yr ysgol.
- ◆ Dylai rhieni/gofalwyr gyda chwestiynau ynglŷn ag unrhyw agweddau o imiwneiddio eu plant drafod gyda'u Nyrs Ysgol, meddyg neu Nyrs Practis.

### I gael rhagor o wybodaeth:

I gael rhagor o wybodaeth am imiwneiddio mewn ysgolion, cysylltwch â'ch **Nyrs Ysgol** os gwelwch yn dda. Am ragor o wybodaeth ynglŷn ag imiwneiddio:

<http://www.nhsdirect.wales.nhs.uk/LiveWell/Vaccinations/default.aspx?locale=cy>